

No.

## CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 25 Mai, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd C.P. Franks, Dr. I.J. Johnson a N.C. Thomas.

### **C1 CYHOEDDIAD -**

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac y caiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwyllo yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwyr yn dymuno siarad, y dylent godi eu llaw (i gael eu gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

### **C2 COFNODION –**

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai, 2023 fel cofnod cywir.

### **C3 DATGANIADAU BUDDIANT –**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### **C4 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL –**

Cyflwynwyd cofnodion y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2023 fel y'i ceir o fewn yr agenda.

No.

Dyweddod y Cyngorydd Williams, a gadeiriodd y Panel Rhianta Corfforaethol, ei bod yn bwysig nodi bod 324 o blant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod ar hyn o bryd gydag amrywiaeth o anghenion a chymhlethdodau. Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu cymorth i deuluoedd a chafwyd trafodaeth barhaus ynghylch anghenion a gofynion cymorth plant fel ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain. Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi cysylltu â Chyngor Caerdydd a oedd â nifer uwch o achosion o'r fath ac a allai gynghori ar arfer gorau yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiad hyd yma.

Roedd y Panel hefyd wedi ystyried y 'Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol Drafft ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Eraill' fel cyfeiriad gan y Cabinet o 23 Ionawr, 2023 ac roedd yn falch o'r wybodaeth a ddarparwyd a roddodd gwell dealltwriaeth o bryderon a phrofiad bywyd y rhai dan sylw.

Dyweddod y Cyngorydd Birch ei bod yn falch o sylwadau'r Panel a dywedodd ei bod yn bwysig cael pecyn cymorth ar waith i bobl gyfeirio ato gan fod rhai sefyllfaoedd yn llawn cymhlethdodau ac roedd pob achos yn wahanol.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2023.

#### Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

### **C5 CABINET RHANBARTHOL PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 27 Mawrth, 2023 fel y'i ceir o fewn yr agenda.

Dyweddod yr Arweinydd, a oedd wedi mynychu'r cyfarfod, y byddai'r Athro Piers Thompson (Prifysgol Nottingham Trent) a'r Athro Robert Huggins (Prifysgol Caerdydd) yn gwneud gwaith sylfaenol i gefnogi Proses Adolygiad Gateway a'r broses Fframwaith Gwerthuso Lleol.

PENDERFYNWYD – Nodi cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 27 Mawrth, 2023.

#### Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

### **C6 ARCHWILIO CYMRU: GWANWYN YMLAEN – RHEOLI ASED AU A CHYNLLUNIO GWEITHLU BRO MORGANNWG (CYF) –**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Ebrill, 2023.

No.

Dyweddod yr Arweinydd wrth gyflwyno cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 15 Mawrth, 2023 y cafwyd trafodaeth dda ynghylch yr adroddiad yn y ddau gyfarfod.

Roedd yr adroddiad wedi canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor wrth reoli ei asedau a'i weithlu'n strategol a bod canfyddiadau'r adolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan ac y byddai'n argymhell cymeradwyo gweithredoedd arfaethedig y Cyngor.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

**PENDERFYNWYD -**

(1) Nodi'r canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad o reolaeth asedau y Cyngor (Atodiad A i'r adroddiad) a threfniadau cynllunio'r gweithlu (Atodiad B i'r adroddiad) a'r ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad ac argymhellion Archwilio Cymru (Atodiad C i'r adroddiad).

(2) Cymeradwyo gweithredoedd arfaethedig y Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion fel yn Atodiad C i'r adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1a2) Wedi ystyried cynnwys y cofnodion a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

### **C7 CYNNYDD CH3 YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIO ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA (CYF) –**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Ebrill, 2023.

Dyweddod yr Arweinydd wrth gyflwyno'r cofnodion fod y cynnydd yn erbyn yr argymhellion yr oedd cyrff rheoleiddio allanol wedi'u gwneud i'r Cyngor a bod y camau gweithredu wedi'u hymgorffori yn Traciwr Insight Bwrdd Mewnwelediad Strategol y Cyngor. Nodwyd cynnydd y Cyngor hyd yma wrth fynd i'r afael ag argymhellion a chynigion gwella presennol a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd hefyd wedi cymeradwyo dileu camau gweithredu wedi'u cwblhau o'r Traciwr Insight (SIB).

Wedi ystyried y cyfeiriad,

**PENDERFYNWYD -**

(1) Nodi'r safbwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Ebrill, 2023.

(2) Cymeradwyo dileu gweithredoedd wedi'u cwblhau o Draciwr Insight y Bwrdd Mewnwelediad Strategol.

Y rheswm dros y penderfyniadau

No.

(1a2) Wedi ystyried cynnwys y cofnodion a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

### **C8 PENODIADAU I GYRFF ALLANOL / CYDBWYLLGORAU (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd penodi / enwebu cynrychiolwyr i'r Cyrff Allanol / Cydbwyllgorau a nodir yn yr adroddiad. Argymhellwyd i aelodau gael eu penodi i nifer o gyrff allanol gwahanol a chydbwyllgorau a ystyriwyd fel arfer ar ddechrau Gweinyddiaeth ond yr oedd angen eu diwygio o bryd i'w gilydd.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo,

**PENDERFYNWYD -**

(1) Penodi neu enwebu Aelodau y mae eu cofnod diwygiedig wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad, i wasanaethu ar y Cyrff a restrir tan yr etholiadau llywodraeth leol yn 2027.

(2) Pan fo'n gyfreithiol bosibl, ystyried presenoldeb mewn cyfarfodydd sefydliadau y mae Aelod wedi'i enwebu neu ei benodi iddynt gan y Cyngor yn ddyletswydd gymeradwy y mae lwfansau teithio a chynhaliaeth yn daladwy ar ei chyfer, yn unol â chynllun y Cyngor.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1a2) Sicrhau parhad cynrychiolaeth gan y Cyngor ar Gyrff Allanol.

### **C9 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad a amlinellodd y cynlluniau/ adroddiadau allweddol a fyddai'n cael eu hystyried gan Aelodau drwy gydol y flwyddyn. Amlinellodd yr adroddiad sut byddai Aelodau etholedig yn rhan o lunio'r dull, y cynlluniau a'r adroddiadau allweddol sy'n cyd-fynd â chalendar blynyddol y fframwaith rheoli perfformiad er mwyn galluogi'r Cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad (Rhan 6 adran 89-93) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf LILE) a chyfrannu at nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (LICD).

Amlinellodd yr adroddiad hefyd y canfyddiadau allweddol a'r gwersi o ddull adolygu Hunanasesiad Blynyddol y flwyddyn flaenorol a gwnaeth gynigion i wella'r broses ymhellach yn barod ar gyfer hunanasesiad 2022/23. Amlinellodd Atodiad A i'r adroddiad raglen dreigl o waith ar y cyd ag Aelodau drwy gydol Calendr Perfformiad Blynyddol 2023/24 i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau

No.

eu hymwneud â llunio a mireinio'r cynlluniau, adroddiadau a phrosesau allweddol a fyddai'n eu cefnogi yn eu rôl allweddol o asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Lles, sicrhau gwerth am arian a gwella lles ei ddinasyddion.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo,

**PENDERFYNWYD -**

- (1) Cymeradwyo Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2023/24 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol o weithgareddau ac i gefnogi'r Aelodau yn eu rôl graffu.
- (2) Nodi canfyddiadau'r adolygiad o ddull Hunanasesu Blynyddol y llynedd a chymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i hunanasesiad 2022/23, gan gynnwys yr amserlen ddangosol.
- (3) Cymeradwyo amseriad arfaethedig asesiad perfformiad y panel.
- (4) Cyfeirio'r adroddiad i'r holl Bwyllgorau Craffu ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried, a chyfeirio unrhyw sylwadau yn ôl i'r Cabinet.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sicrhau bod pob Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn goruchwyllo'r Calendr Perfformiad Blynyddol a bod eu barn yn llywio dull y Cyngor o fodloni'r gofynion perfformiad newydd.
- (2) Sicrhau bod dull y Cyngor o ymdrin â Hunanasesiad 2022/23 yn cynyddu i ba raddau yr oedd yn bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- (3) Caniatáu amser paratoi digonol i gomisiynu ac ymateb i asesiad perfformiad y panel o fewn yr amserlen statudol.
- (4) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llawn dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyhoeddi Amcanion Lles blynyddol, adolygu perfformiad yn barhaus ac ymgynghori ac adrodd ar ein perfformiad drwy hunanasesiad blynyddol yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

## **C10 ADRODDIAD YMGYNGHORI PENARTH ESPLANADE (DA/LC) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniadau'r tri cham ymgynghori â'r cyhoedd ar ddatblygiad

No.

Esplanade Penarth yn y dyfodol ac argymell y camau gweithredu nesaf. Dywedodd fod llawer iawn o waith eisoes wedi'i wneud a gofaldwyd wrth feddwl am wneud penderfyniadau gwybodus a chynaliadwy ar gyfer yr Esplanade.

O ran Cyfleusterau Cyhoeddus, mynegwyd llawer o werthfawrogiad am ymddangosiad yr Esplanade ond roedd mater cylchol yn ymwneud â'r angen am waith cynnal a chadw a goleuadau gwell yn yr Ardd Eidalaid. Roedd angen ymgynghori pellach hefyd ar ymddangosiad, dyluniad ac ansawdd yr ardaloedd eistedd trwyddedig presennol ar hyd yr Esplanade.

Byddai trafodaeth hefyd yn cael ei chynnal ynghylch digon o leoedd parcio ceir, trafniadaeth ac awydd am gludiant gwennol o ganol y dref a/neu Faes Parcio Clifftop, yn ogystal â mwy o arwyddion wrth gyrraedd Gorsaf Drenau Penarth ac yn gyffredinol yng nghanol y dref i gynnig gwybodaeth am lwybrau cerdded a phellteroedd i'r Esplanade.

Cafwyd adborth ffafriol mewn cysylltiad â digwyddiadau'r Wyl Haf a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Penarth a byddai angen ystyried hyn fel rhan o Gynllun Creu Lleoedd Penarth.

Ar draws y Grwpiau Ffocws a'r sesiynau galw heibio cyhoeddus, cyfeiriwyd dro ar ôl tro at bwysigrwydd Tiroedd y Cymin fel adnodd pwysig ac fel amgylchedd naturiol pwysig. Roedd angen gwneud rhagor o waith o ran sut y gellid cysylltu safle'r Cymin â'r Esplanade.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd yr ymgynghorwyd ag Aelodau Ward Plymouth a St Augustine ar yr adroddiad ac y cafwyd tri ymateb. Mynegwyd safbwyntiau gwahanol a fyddai'n cael eu hystyried fel rhan o'r camau ymgynghori nesaf a byddai'r ymatebion hynny'n cael eu hychwanegu fel papurau atodol at agenda'r cyfarfod hwnnw.

Dywedodd yr Arweinydd fod hwn yn ddarn da o waith a bod Bro Morgannwg yn cynnwys lleoedd amrywiol ac arbennig. Roedd hi wedi dweud y llynedd y byddai'r Cyngor yn gwrando ar drigolion y Fro ac yn trafod unrhyw syniadau yn y dyfodol wrth symud ymlaen, fodd bynnag, roedd rhai o'r safbwyntiau a gafwyd yn groes i'w gilydd a byddai angen gweithio trwyddynt, er bod y Timau Cymunedau Creadigol a Chyfathrebu eisoes wedi gwrando, a chasglu safbwyntiau a gafwyd hyd yma. Diolchodd yr Arweinydd i'r Timau hynny am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud hyd yma.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam y bu'n ymgynghoriad cadarnhaol gydag ymgysylltiad cymunedol da am yr Esplanade a oedd yn ardal eiconig ym Mro Morgannwg ac yr oedd gan y Cyngor barch mawr tuag ati, ynghyd â'r Cymin. Roedd y Cynllun Creu Lleoedd hefyd yn ystyriaeth gyffrous a oedd yn ddarn pwysig o waith a fyddai'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod nifer o amcanion i'w cyflawni o hyd, gan gynnwys ymfalchïo yn yr Esplanade a hybu Penarth yn fwy fel cyrchfan canol tref i drigolion lleol ac ymwelwyr â'r ardal.

No.

Dywedodd y Cyngorydd Williams hefyd ei fod yn ddarn da o waith a bod yr Esplanade yn denu ymwelwyr o bob rhan o Fro Morgannwg a thu hwnt.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) Nodi'r adborth a gafwyd yn ystod y tri cham ymgynghori â'r cyhoedd.
- (2) Cymeradwyo'r rhaglen o weithgaredd blaenoriaeth, fel y nodir yn adran 2 yr adroddiad, sy'n ymwneud â'r adborth a gafwyd yn ystod y tri cham ymgynghori, a chymeradwyo cynhyrchu astudiaeth strategol tymor hwy, gan gynnwys llunio strategaeth ar sail Lle ar gyfer yr Esplanade, a fwriadwyd fel rhan ragarweiniol o ddatblygu Cynllun "Creu Lleoedd" ar gyfer tref gyfan Penarth.
- (3) Parhau i ddefnyddio'r cilfannau parcio a neilltuwyd ar hyn o bryd ar gyfer masnachu am yr un peth o fis i fis tra bod opsiynau a chyllid posibl ar gyfer ateb peirianeg priodol ar gyfer y tymor hwy yn cael eu hystyried.
- (4) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lleoedd Cynaliadwy i ystyried ceisiadau am unrhyw drwyddedau dros dro ychwanegol ar gyfer masnachu stryd yn yr Esplanade, hyd nes y bydd cynnydd ar ateb peirianeg tymor hwy priodol ar gyfer yr Esplanade.
- (5) Yn unol â Phenderfyniadau (3) a (4), rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet dros Lleoedd Cynaliadwy i gynhyrchu cyfres o egwyddorion dylunio a fydd yn arwain y defnydd parhaus dros dro o'r Esplanade ar gyfer masnachu ar y stryd, hyd nes y bydd ateb tymor hwy yn cael ei weithredu.

#### Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Hysbysu'r Cabinet am ganlyniadau'r tri cham ymgynghori cyhoeddus.
- (2) Sicrhau bod pryderon ac anghenion preswylwyr ac ymwelwyr, a busnesau sy'n gweithredu ar yr Esplanade yn cael eu hadlewyrchu a'u gweithredu a bod gwella parhaus strategol yr ardal yn cael ei lywio gan y mapio cymunedol sy'n cefnogi gweithgarwch Creu Lleoedd, a bod unrhyw ddatblygiadau yn adlewyrchu'r chwe Egwyddor sy'n sail i Siarter Creu Lleoedd Cymru (2020): Pobl a'r Gymuned; Lleoliad; Symud; Cymysgedd o Ddefnyddiau; Tir Cyhoeddus a Hunaniaeth.
- (3) Cadarnhau bod canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cefnogi parhad trwyddedau ar gyfer masnachu a gynigir ar hyn o bryd yn y manau parcio a neilltuir ar gyfer masnachu (yn amodol ar ansawdd a dyluniad boddhaol) ac y gall unrhyw fusnes ar yr Esplanade sy'n dymuno gwneud hynny, wneud cais am drwydded masnachu priffyrdd (yn amodol ar ansawdd a dyluniad).

No.

(4) Gallu rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw geisiadau ychwanegol am fasnachu dros dro ar y stryd yn yr Esplanade.

(5) Sicrhau bod y defnydd parhaus dros dro ac unrhyw ddefnydd dros dro o'r stryd at ddibenion masnachu yn bodloni gofynion dylunio sy'n adlewyrchu lleoliad pwysig yr Esplanade.

## **C11 DOD YN UN O LOFNODWYR SIARTER CREU LLEOEDD CYMRU A DATBLYGU CYNLLUNIAU CREU LLEOEDD (DA/LC) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Diben yr adroddiad oedd ceisio awdurdod dirprwyedig i'r Cyngor ymrwymo i Siarter Creu Lleoedd Cymru a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyngor wneud cais am gyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer pob un o'r pedair tref yn y Fro.

Dyweddodd y Dirprwy Arweinydd wrth gyflwyno fod pedair tref wahanol ym Mro Morgannwg bob un â'i hunaniaeth unigryw ei hun, ac roedd yn bwysig cydnabod yr hunaniaethau unigol hynny. Cytunodd llofnodwyr Siarter Creu Lleoedd Cymru i hyrwyddo chwe egwyddor wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a phresennol. Roedd symud yn cyfeirio at flaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus i ddarparu dewis o ddulliau trafndiaeth ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat, ond byddai hynny'n cynnwys pob dull o deithio llesol. Roedd hunaniaeth yn egwyddor bwysig gan fod pob un o'r meysydd dan sylw yn wahanol ac roedd gan eu hunaniaethau gwahanol nodweddion pwysig.

Dyweddodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig bod gan y cymunedau hynny, bob un â'i nodweddion unigryw ei hun, y gwahanol elfennau sydd eu hangen i symud ymlaen a bod yn llwyddiannus.

Dyweddodd y Cynghorydd Williams fod yr adroddiad yn amlinellu beth oedd Creu Lleoedd, pwy oedd yn gysylltiedig o ran cymunedau a rhanddeiliaid, a bod cyflwyniad ynglŷn â Chreu Lleoedd i'r Cyngor Tref y noson honno.

Dyweddodd y Cynghorydd John ei fod yn frwdfrydig ynghylch yr hyn y gallai Llanilltud Fawr ei gyflawni wrth symud ymlaen.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo,

**PENDERFYNWYD -**

(1) Cyfeirio'r cynnig i Gyngor Bro Morgannwg fod yn llofnodwr Siarter Creu Lleoedd Cymru i'r Pwyllgor Craffu ar yr Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried. Pe bai Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio yn cytuno ac nad oes ganddyn nhw sylwadau pellach, ystyrid bod mater wedi'i gytuno.



No.

(2) Yn amodol ar Benderfyniad (1), Cyngor Bro Morgannwg i lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru.

(3) Yn amodol ar Benderfyniad (1), Cyngor Bro Morgannwg i wneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru i baratoi Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer pob tref yn y Fro.

(4) Yn amodol ar Benderfyniad (1), awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd (mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i ymrwymo i gytundebau cyllid / cyfreithiol gyda Llywodraeth Cymru neu unrhyw drydydd partïon i gefnogi datblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd.

#### Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Caniatáu i'r cynnig gael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu ar yr Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried a'i gymeradwyo

(2) Wrth lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru Cyngor Bro Morgannwg i gytuno i gefnogi creu lleoedd ym mhob maes perthnasol o waith y Cyngor a hyrwyddo'r chwe egwyddor creu lleoedd wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a phresennol.

(3) Galluogi cyflwyno ceisiadau am gyllid a datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd.

(4) Derbyn cyllid grant tuag at ddatblygu cynlluniau creu lleoedd a llunio unrhyw gytundebau cyfreithiol angenrheidiol.

### **C12 DIWEDDARIAD AR YR YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GYNYDDU'R CAPASITI AR GYFER ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG DRWY EHANGU YSGOL IOLO MORGANWG O 210 LLE I 420 LLE O FEDI 2025 (ASG) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd cynghori'r Cabinet am ganlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar y cynnig i gynyddu'r capasiti ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 lle i 420 lle o fis Medi 2025.

O'r 91 o ymatebion a ddaeth i law, nododd 5 nad oedden nhw'n cefnogi'r cynigion, gan nodi amrywiaeth o resymau megis blaenoriaethu cyfrwng Saesneg dros gyfrwng Cymraeg ond a oedd yn groes i ofynion Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Roedd pryderon hefyd ynglŷn â maint yr ysgol a cholli cymuned, ond roedd hynny i'w reoli gan y staff, y plant a'r arweinyddiaeth i sicrhau bod cymuned yn cael ei chadw o fewn yr ysgol, beth bynnag ei maint.

Bu pryder hefyd ynglŷn â'r effaith i'r Mudiad Meithrin, ond roedd gwaith wedi ei wneud i sicrhau bod meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg y tu allan i ddarpariaeth Bro Morgannwg yn mynd i allu gweithio gyda'r ysgol.

No.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo,

**PENDERFYNWYD -**

(1) Nodi'r adroddiad, y ddogfen ymgynghori (Atodiad A), yr adroddiad Ymateb i'r Ymgynghoriad (Atodiad B) ac atodiadau eraill sy'n rhan o'r adroddiad, gan gynnwys yr Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymuned yn Atodiadau C a D yn y drefn honno i gynyddu'r capasiti ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yng ngorllewin y Fro drwy ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 lle i 420 lle o fis Medi 2025.

(2) Cymeradwyo'r cynnig i gynyddu'r capasiti ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg drwy ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 lle i 420 lle o fis Medi 2025 drwy gyhoeddi'r cynigion ar ffurf hysbysiad statudol.

(3) Nodi'r buddsoddiad mawr tuag at adeilad ysgol newydd a nodwyd yn y cynnig yn amodol ar y cyllid angenrheidiol yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried wrth ddod i benderfyniad ynghylch a ddylid cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynigion.

(2) Sicrhau bod digon o gapasiti ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yng Ngorllewin y Fro ac adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd (CSCA) a strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

(3) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol bod y buddsoddiad llawn yn adeilad yr ysgol a ddisgrifir yn y dogfennau ymgynghori yn dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru.

**C13 FFURFIO RHAGLEN PARTNERIAETH TAI GYDA CHYNGOR CAERDYDD. (BYDD YR ADRODDIAD YN CAEL EI GYMRYD GAN YR ARWEINYDD FEL MATER O FEWN Y SECTOR CYHOEDDUS TAI AC YMGYSYLLTU Â THENANTIAID (TSCYT) (CRAFFU - CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnig i sefydlu Rhaglen Partneriaeth Tai gyda Chyngor Caerdydd a chaffael Partner Datblygu ar y cyd i gyflawni Rhaglen Datblygu Tai y Cyngor.

Trafodwyd cynllunio tai strategol ym Mhwyllgorau Craffu y gorffennol ynghylch y pwysau a wynebwyd i sicrhau bod gan bobl ym Mro Morgannwg gartrefi sefydlog

No.

ar gyfer y dyfodol wrth ystyried breuder y farchnad, felly teimlwyd mai'r ffordd orau o symud ymlaen oedd mynd i bartneriaeth gyflenwi gyda Chyngor Caerdydd.

Nododd blaenraglen ddatblygu'r Cyngor safleoedd a gadarnhawyd a darpar safleoedd a allai ddarparu tua 486 o gartrefi newydd, ond roedd yr Arweinydd yn gobeithio y gellid cyflawni mwy, a bod seilwaith wedi'i adeiladu ochr yn ochr â datblygiadau. Byddai gweithio mewn partneriaeth â Chaerdydd a chyflwyno datblygiadau'r Cyngor ei hun yn sicrhau y byddai mwy o gyfleoedd i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth ar gyfer cymunedau cysylltiedig wrth symud ymlaen.

Bu rhywfaint o bryder y byddai'r Canllaw Dylunio a'r Fanyleb Datblygu sengl yn sicrhau bod cartrefi'n cael eu hadeiladu i'r un safonau ar draws y rhaglen gyfan ond yn arwain at adeiladu cartrefi union yr un fath ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, ond roedd yr Arweinydd wedi cael gwybod nad oedd hynny'n wir. Byddai rhai agweddau cyffredinol fel cael pwyntiau pŵer ar waelod y grisiau felly pe bai angen, gellid gosod lifft grisiau a byddai ystafelloedd gwlyb i lawr grisiau i'w gwneud yn hygyrch i bawb. Fodd bynnag, o ystyried yr adroddiad Creu Lleuedd blaenorol ar yr agenda, roedd yn bwysig bod arddull y tai yn adlewyrchu'r ardal leol ac yn destun penderfyniadau cynllunio priodol yn unol â hynny.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo,

**PENDERFYNWYD -**

(1) Nodi'r cynnig i sefydlu Rhaglen Partneriaeth Tai gyda Chyngor Caerdydd ac i benodi Partner Datblygu ar y cyd i gyflawni rhaglen datblygu tai uchelgeisiol y Cyngor.

(2) Nodi'r gofyniad i wneud penderfyniadau ffurfiol ar gynnydd y cynnig uchod, fel rhan o'r ystyriaethau ehangach a fanylir yn adroddiad Rhan II yn ddiweddarach yn yr agenda.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y bwriad i sefydlu Rhaglen Partneriaeth Tai gyda Chyngor Caerdydd.

(2) Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud i ddatblygu'r bwriad o sefydlu Rhaglen Partneriaeth Tai gyda Chyngor Caerdydd.

#### **C14 MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –**

**PENDERFYNWYD – BOD** y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu arno ystyried y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion

**C15 CYNLLUN AILGARTREFI CYFLYM BRO MORGANNWG (CYF) –  
(Mater yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys er mwyn  
ystyried y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar  
17eg Mai, 2023 er mwyn cwblhau'r ymateb i Lywodraeth Cymru.)**

*(Ystyriwyd yr eitem hon cyn Eitem Agenda 8)*

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 17 Mai, 2023 gan yr Arweinydd, gan gynghori y bu trafodaeth graff yn y cyfarfod Craffu gyda'r Pwyllgor yn cael trafodaeth addysgol ynghylch yr argyfwng digartrefedd a'r camau gweithredu cysylltiedig, datblygiadau tai cymdeithasol newydd, ac annog landlordiaid preifat i gynyddu eu portffolios a'r 'digartref cudd'.

Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch darpariaeth gwestai a llety gwely a brechwast a barhaodd yn her allweddol, ond gweithiodd y Cyngor yn agos gyda darparwyr drwy ymgynghori â thrigolion i liniaru'r defnydd hwnnw gymaint â phosibl. Trafodwyd y Strategaeth Pobl Hŷn hefyd o ran cael eiddo penodol wedi'u dynodi'n benodol ar gyfer pobl hŷn. Roedd yr aelodau hefyd wedi trafod cysyniad y llety dros dro a'r hyn a oedd yn digwydd gyda datblygiad Eagleswell Road.

Ar ôl ystyried y cofnodion a sylwadau'r Arweinydd,

PENDERFYNWYD – nodi'r safbwyntiau a'r sylwadau a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 17 Mai 2023.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C16 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

**C17 FFURFIO RHAGLEN PARTNERIAETH TAI GYDA CHYNGOR  
CAERDYDD. (BYDD YR ADRODDIAD YN CAEL EI GYMRYD GAN YR  
ARWEINYDD FEL MATER O FEWN Y SECTOR CYHOEDDUS TAI AC  
YMGYSYLLTU Â THENANTIAID (TSCYT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG –  
PARAGRAFFAU 13 A 14) (CRAFFU - CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnig i sefydlu Rhaglen Partneriaeth Tai gyda Chyngor Caerdydd a chaffael Partner Datblygu ar y cyd i gyflawni Rhaglen Datblygu Tai y Cyngor.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

No.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) Cymeradwyo ffurfio Rhaglen Partneriaeth Tai gyda Chyngor Caerdydd, gan gynnwys penodi Gweithiwr Proffesiynol Datblygiad Preswyl Arweiniol i helpu i ffurfio'r Rhaglen Partneriaeth Tai a chychwyn ymarfer caffael i benodi Partner Datblygu.
- (2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ymrwymo i'r Cytundeb Partneriaeth Tai gyda Chyngor Caerdydd.
- (3) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau (fel mater Portffolio Tai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid) a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i reoli pob mater sy'n ymwneud â'r broses gaffael gan gynnwys cytuno ar y llwybr caffael, cytuno ar bamedrau a model cyflawni rhaglen partneriaeth tai, cytuno ar y dogfennau caffael, cytuno ar y meini prawf gwerthuso a gwerthuso'r ceisiadau.
- (4) Awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi a gweithredu'r contractau priodol gyda'r Ymgeisydd llwyddiannus.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sefydlu Rhaglen Partneriaeth Tai gyda Chyngor Caerdydd a dechrau'r broses o gaffael Partner Datblygu, i gyflawni Rhaglen Datblygu Tai uchelgeisiol y Cyngor.
- (2) Caniatáu i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb partneriaeth ffurfiol â Chyngor Caerdydd.
- (3) Mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n ymwneud â chaffael Partner Datblygu i gyflawni Rhaglen Datblygu Tai y Cyngor.
- (4) Caniatáu i'r Cyngor ymrwymo i berthynas gytundebol â'r Ymgeisydd llwyddiannus.